



Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Y Dr Mohammed Mehmet
Cyngor Sir Ddinbych
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
Sir Ddinbych
LL15 1YN

Adeiladau Cambrian
Sgwâr Mount Stuart
Caerdydd
CF10 5FL
08442 640670
gofyn@olderpeoplewales.com

12 Medi 2011

Annwyl Dr Mehmet,

**Adolygiad Ysbytai Gofal gydag Urddas a hysbysiad bod yr
Adolygiad ar ben**

Ar 12 Gorffennaf 2011, anfonais Hysbysiad Ysgrifenedig at Gyngor Sir Ddinbych yn gofyn i'r Cyngor ymateb i Argymhelliad 5 yn fy Adolygiad 'Gofal gydag Urddas? Profiadau pobl hŷn mewn ysbytai yng Nghymru' ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, gan amlinellu sut y bydden nhw'n cydymffurfio ag ef. Os byddai'r penderfyniad yn cael ei gymryd i beidio â chymryd camau, roeddwn yn gofyn am esboniad dros beidio â chymryd camau. Anfonais yr Hysbysiad Ysgrifenedig gan nad oeddwn wedi cael ymateb yn uniongyrchol gan Gyngor Sir Ddinbych, ac nad oedd yn glir o ymateb Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a oedd y Cyngor wedi cymeradwyo ymateb y Bwrdd Iechyd.

Ers hynny, rwy'n dal heb gael ymateb ysgrifenedig yn uniongyrchol gan Gyngor Sir Ddinbych i Argymhelliad 5, sy'n peri siom. Serch hynny, rwyf wedi cael ar ddeall drwy'r ymateb gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod Arweinydd Pobl Hŷn Sir Ddinbych wedi'i gynnwys wrth ddatblygu a chymeradwyo'r ymateb drafft ac mae Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Busnes Cyngor Sir Ddinbych

wedi cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i ymateb y Bwrdd Iechyd i'm hargymhellion i. Roedd yn dda gen i wybod bod Pwyllgor Craffu Partneriaethau Cyngor Sir Ddinbych wedi ystyried fy adroddiad ym mis Gorffennaf 2011. Roedd cydweithiwr imi, Alun Thomas, yn bresennol hefyd yng Ngrŵp Urddas mewn Gofal y Gogledd ym mis Gorffennaf a chafodd ei galonogi gan yr ymrwymiad i wella ar y cydweithio.

Mae'r ymateb a ges i gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ynghyd â'r cydadwaith arall sydd wedi bod â chynrychiolwyr o Gyngor Sir Ddinbych mewn perthynas â'r argymhellion, wedi fy narbwylllo y bydd Cyngor Sir Ddinbych yn cydymffurfio ag Argymhelliad 5. Gan hynny, mae'r Adolygiad swyddogol fel y mae'n ymwneud â Chyngor Sir Ddinbych bellach ar ben. Bydd fy nhîm a mi'n gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod fy argymhellion i a chynllun gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn troi'n realiti ymarferol sydd o les i bobl hŷn yng Nghymru. Rydyn ni'n gobeithio cyfarfod â chi yng ngwanwyn 2012 i drafod y cynnydd sydd wedi'i wneud a chyfleoedd i rannu'r arferion gorau.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y llythyr hwn, cysylltwch ag Anna Buchanan ar 02920 445034 neu anna.buchanan@olderpeoplewales.com.

Yn gywir,



Ruth Marks
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru